Bat Conservation Trust

Byw gydag ystlumod

Canllaw i berchnogion clwydfannau

Ystlum hirglust © J J Kaczanow

Atebion i'r cwestiynau cyffredin am rannu eich cartref gydag ystlumod, cyngor ar ofalu am eich lletywyr, canllaw i nodi'r rhywogaethau sydd fwyaf tebygol o fod yn byw yn eich cartref, canllawiau ar ofalu am ystlumod wedi anafu a chysylltiadau defnyddiol ar gyfer rhagor o wybodaeth.

Cwestiynau Cyffredin

Rwy'n credu bod ystlumod yn fy llofft neu fy nho, ond nid wyf yn siŵr – sut y gallaf wybod?

Gydag anhawster yn aml! Mae ystlumod wedi bod yn byw mewn rhai cartrefi am flynyddoedd heb i bobl fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'n well gan wahanol rywogaethau wahanol leoliadau i glwydo (neu gysgodi).

Mae'r ystlumod lleiaf, yr ystlumod cartref mwyaf cyffredin, yn aml yn dewis tai modern a lleoedd cyfyng, yn aml yn clwydo y tu allan i wagle to, tu ôl i estyll tywydd neu deils sy'n hongian neu rhwng isffelt a theils. Gallech ddod o hyd i faw'r ystlumod ar ffenestri, waliau neu silffoedd yn yr haf, neu efallai na fyddwch yn gweld unrhyw arwyddion o gwbl. Yn ystod y cyfnos maent yn mynd allan i fwydo felly cadwch lygad am eu hacrobatics awyr rhyfeddol ar yr adeg honno!

Mae'n well gan ystlumod hirglust adeiladau hŷn, a chlwydo y tu mewn i wagle'r to yn erbyn y pren, fel arfer ar hyd y crib neu wrth gymalau'r arris. Mae eu baw yn haws i'w weld, yn aml mewn llinell o dan y crib, ond daw'r ystlumod hyn allan ar ôl iddi nosi ac felly maent yn anoddach i'w gweld.

Cliw arall yw'r sŵn parablus y mae ystlumod, yn enwedig ystlumod lleiaf, yn ei wneud yn ystod y cyfnos cyn iddynt hedfan allan i fwydo. Ym mis Gorffennaf ac Awst maent yn arbennig o swnllyd pan fydd yn gwawrio, pan fydd babanod llwglyd yn galw am eu mamau yn gyffrous wrth iddynt ddychwelyd ar ôl hela drwy'r nos.

Sut y gallaf adnabod eu baw?

Gwnewch y prawf malu! Rholiwch ddarn o faw mewn darn o hances rhwng eich bys a'ch bawd – os yw'n teimlo'n galed mae'n debygol mai llygod sydd gennych, nid ystlumod. Bydd baw ystlum yn malu'n fân yn hawdd oherwydd ei fod yn cynnwys rhannau pryfed anrheuliadwy. Nid yw baw ystlumod yn cyflwyno unrhyw berygl iechyd sylweddol yn y DU, a gellir ei ysgubo i'w ddefnyddio fel gwrtaith gwych i'r ardd.

A fydd yr ystlumod yn achosi unrhyw ddifrod?

Nid yw ystlumod yn gnofilod, ac nid ydynt yn cnoi pren, gwifrau na deunydd inswleiddio. Nid ydynt yn creu nythod, nac yn dod â deunydd gwely nac ysglyfaeth pryfed i'w clwydfannau. Mae ystlumod yn anifeiliaid glân a chymdeithasol ac yn treulio llawer o amser yn glanhau eu hunain. Gwnewch yn siŵr bod eich tanciau dŵr wedi'u gorchuddio, gan y bydd hyn yn atal ystlumod, adar a phryfed rhag mynd i mewn iddynt.

Pam bod ystlumod yn defnyddio adeiladau? Roeddwn yn credu eu bod yn byw mewn ogofau.

Mae ystlumod hefyd yn clwydo mewn tyllau mewn coed ac mewn ogofau, er bod y graddau y mae hyn yn digwydd yn amrywio rhwng rhywogaethau gwahanol. Mae adeiladau yn aml yn cynnig amgylchedd cynhesach i rai rhywogaethau o ystlumod, a chânt eu defnyddio'n aml ar gyfer bridio yn ystod misoedd yr haf. Caiff clwydfannau coed eu dinistrio yn aml gan bobl yn gordacluso pren marw, tra bod ystlumod yn defnyddio ogofau yn bennaf ar gyfer gaeafgysgu (er efallai bod rhai rhywogaethau yn bridio ynddynt hefyd).

A fyddaf yn cael fy ngorlwytho gan ystlumod?

Na fyddwch. Dim ond un baban y mae ystlum sy'n fam yn ei gael mewn blwyddyn, ac nid bob blwyddyn bob amser. Gwelir ystlumod gan amlaf mewn cartrefi yn yr haf, gan fod angen i'r ystlumod benyw gael rhywle cynnes i gael eu babanod. Yma, fel pob mamal, maent yn rhoi genedigaeth i fabanod byw, sy'n sugno'r deth am laeth am sawl wythnos cyn y gallant hedfan a bwydo drostynt eu hunain, pan fyddant yn symud i ffwrdd. Fodd bynnag, os bydd ystlumod yn dod o hyd i le ar gyfer clwydfan mamolaeth sy'n addas iawn iddynt, byddant yn aml yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ystlumod hirglust, J J Kaczanow

Gofalu am eich lletywyr

Mae pob ystlum Prydeinig yn bwyta pryfed, y maent yn eu dal gan ddefnyddio system soffistigedig o'r enw ecoleoli, drwy wrando ar atsain sy'n dychwelwyd o'u galwadau traw uchel i greu 'darlun sain'. Maent yn bwydo ar ddeiet o wybed, mosgitos, gwyfynod a chwilod, er mae gan rywogaethau gwahanol eu chwaeth eu hunain. Trwy dyfu planhigion sy'n ddeniadol i amrywiaeth o bryfed, gallwn wneud ein gerddi yn orsafoedd bwydo pwysig i ystlumod, adar a bywyd gwyllt eraill. Ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod (0845 1300 228) heddiw i gael copi o'r llyfryn 'Encouraging bats' sy'n cynnwys llawer o awgrymiadau ar arddio sy'n ystyried bywyd gwyll, blychau ystlumod, a sut i adnabod y rhywogaethau y gallech eu gweld yn eich gardd.

Problem y mae ystlumod yn aml yn ei hwynebu mewn gerddi yw cathod. Os oes gennych gath, gallwch helpu i arbed bywydau yr haf hwn drwy ddod â'ch cath i mewn hanner awr cyn iddi fachlud er mwyn i'r ystlumod allu dod allan o'u clwydfannau heb darfu arnynt Mae hyn yn arbennig o bwysig o ganol mis Mehefin i ddiwedd mis Awst, pan mae'r ystlumod yn magu eu babanod. Mae hyn hefyd yn galluogi'r ystlumod i ddychwelyd gyda'r wawr heb eu haflonyddu gan gathod. Os byddwch yn canfod ystlum sy'n ymddangos ei fod wedi'i anafu gan gath, ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod (0845 1300 228) i gael manylion eich gofalwr ystlumod agosaf.

Beth sy'n digwydd i ystlumod yn y gaeaf?

Gan fod ysglyfaeth pryfed yn brin yn y gaeaf, mae ystlumod yn mynd i aeafgysgu. Maent yn dod o hyd i le eithaf oer, lle cânt lonydd, ac yn swatio, yn aml mewn crac neu hollt, ond weithiau mewn sied neu garej. Os byddwch yn gweld ystlum yn gaeafgysgu peidiwch ag aflonyddu arno, gan fod deffro yn ddiangen yn llosgi storfeydd braster gwerthfawr. Peidiwch â chael eich synnu os byddwch yn gweld ystlum yn hedfan yn ystod y gaeaf gan eu bod yn deffro'n achlysurol, i symud i safle newydd neu i chwilio am fwyd neu ddŵr.

Beth y dylwn ei wneud os nad wyf am gael ystlumod?

Caiff ystlumod a'u clwydfannau eu gwarchod gan y gyfraith, sy'n golygu ei bod yn anghyfreithlon aflonyddu arnynt, eu lladd neu eu hanafu neu niweidio, dinistrio neu rwystro mynediad i glwydfan ystlum, p'un a fydd hynny'n fwriadol neu ar ddamwain. Gan fod ystlumod yn dueddol o ddychwelyd i'r un clwydfannau bob blwyddyn, caiff y clwydfannau eu gwarchod p'un a yw'r ystlumod yn bresennol ai peidio. Ond nid yw hynny'n golygu y cewch eich gorfodi i'w cadw, ond bod rhaid i chi ofyn am gyngor gan eich Sefydliad Cadwraeth Natur Statudol (SNCO) i gadw o fewn y gyfraith.

Os yw'r ystlumod yn achosi problem neu os na chânt groeso gellir dewis amrywiaeth o opsiynau, ond mae'n rhaid i chi drafod hyn gyda'ch SNCO lleol yn gyntaf – gweler tudalen ôl y llyfryn hwn i gael rhestr o gysylltiadau. Weithiau bydd ystlumod yn mynd i ardaloedd byw y tŷ – rydym yn rhoi cyngor ar sut i ddelio â hyn yn nes ymlaen yn y llyfryn. Os bydd hyn yn digwydd yn rheolaidd, bydd eich SNCO yn gallu helpu.

A fyddaf yn gallu gwneud gwaith ar fy llofft neu do?

Nid yw cael ystlumod yn golygu na allwch wneud gwaith adeiladu, atgyweirio toeau neu drin coed, ond bydd angen i chi sicrhau eich bod yn ymgynghori â'ch SNCO lleol cyn dechrau unrhyw waith a dilyn eu cyngor ar sut i fynd ati.

Byddant yn anfon gweithiwr ystlumod cymwys i archwilio eich clwydfan a bydd yn rhoi cyngor am ddim. Efallai y byddant yn gallu nodi nifer yr ystlumod yn eich clwydfan a'u rhywogaethau.

Pwy sy'n byw yn fy nhŷ?

Mae dwy rywogaeth ar bymtheg o ystlumod yn y DU, ond dim ond rhai sy'n debygol o glwydo mewn tai. Yma rydym yn rhestru'r rhywogaethau y byddwch fwyaf tebygol o'u canfod, er mae bob amser eithriad i'r rheol...

Nodwyd y rhywogaeth ystlum Prydeinig mwyaf helaeth, **yr ystlum lleiaf** yn ddiweddar fel dwy rywogaeth ar wahân – yr lstlum lleiaf soprano a'r ystlum lleiaf cyffredin (chwith). Gan eu bod yr un fath fwy na lai i'r llygad, y ffordd hawsaf i wahaniaethu rhwng y ddwy rywogaeth yw trwy amledd eu hecoleoli – 55kHz i'r ystlum lleiaf soprano, 45kHz i'r ystlum lleiaf cyffredin. Mae'r drydedd rhywogaeth, ystlum lleiaf Nathusius, yn eithaf prin ac ni chânt eu canfod mor aml mewn tai.

Mae'n well gan ystlumod lleiaf glwydo mewn lleoedd cyfyng iawn o amgylch y tu allan i adeiladau, fel arfer y tu ôl i deils sy'n hongian, bondoeau ac estyll tywydd, o dan ffelt toeau neu mewn waliau ceudod. Nid ydynt fel arfer yn mynd i wagleoedd yn y to, er bod hen nythfeydd mawr mewn adeiladau hŷn yn gwneud hynny.

Ystlum lleiaf, Hugh Clark

Mae'r ystlumod bach hyn fel arfer yn mesur rhwng 3.3cm a 4.8cm (hyd pen a chorff), a lled yr adennydd yn 18cm i 25cm. Eu deiet o ddewis yw gwybed a mosgitos – gall un ystlum lleiaf cyffredin fwyta hyd at 3,000 o bryfed mewn un noson, sydd un rhan o dair o bwysau ei gorff!

Ystlum hirglust, JJ Kaczanow

Yr **ystlum hirglust** (dde) yw un o'r ystlumod mwyaf annwyl. Mae ei glustiau hir yn golygu y gellir ei adnabod ar unwaith, hyd yn oed pan fydd yn hedfan. Fodd bynnag pan fydd yn ymlacio ni fydd ei glustiau bob amser mor amlwg: gall yr ystlum droi ei glustiau yn ôl neu eu swatio'n llwyr o dan eu hadenydd.

Mae ystlumod hirglust yn clwydo ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau bach ym mhren to yr apig, yn enwedig o amgylch ochrau crib a simneiau, ac mewn holltau mewn teils crib. Mae'r ystlumod hyn, sy'n ganolig o ran maint, yn treulio mwy o amser y tu mewn i wagleoedd to na llawer o ystlumod eraill, ac yn gyffredinol maent yn dawel iawn y tu mewn i'r clwydfannau ac nid ydynt yn gadael nes ar ôl iddi nosi.

Mae ystlumod hirglust, ynghyd â'u cefnder mwy prin, yr ystlum hirglust llwyd, yn hedfan yn araf ymysg deiliant i bigo pryfed o ddail a rhisglau. Cânt eu hadnabod fel 'ystlumod sy'n sibrwd' oherwydd mae eu synau ecoleoli yn dawel iawn, ac mae maint eu clustiau yn golygu bod eu clyw yn dra sensitif.

Gellir canfod rhywogaethau eraill o ystlumod yn clwydo mewn tai, yn dibynnu ar arddull a lleoliad y tŷ. Dyma dair rhywogaeth arall a allai fod yn clwydo mewn tai:

Bydd yr **ystlum adain-lydan**, un o'r rhwyogaethau ystlum mwyaf yn y DU, bron bob amser yn clwydo mewn tai ledled Cymru a de Lloegr. Yn fwy prin na'r ystlumod lleiaf a'r ystlumod hirglust, mae'r ystlum adain-lydan fel arfer yn clwydo mewn holltau ac o amgylch simneiau ac mewn waliau ceudod. Eu hoff ysglyfaeth yw chwilod mawr, y gallant ddod o hyd iddynt ar diroedd fferm a glaswelltiroedd.

Mae **ystlum y dŵr** fel arfer yn clwydo mewn cartrefi yn yr Alban (fel arfer mewn adeiladau sy'n agos i ddyfrffyrdd, fel hen felinau) ond yn anaml yng ngweddill y DU. Gwelir yr ystlum hwn fel arfer yn gwibio dros y dŵr yn fuan ar ôl iddi nosi yn chwilio am bryfed ar yr wyneb.

Weithiau, gellir canfod **ystlumod trwyn pedol**, yr ystlum mwyaf anarferol o ran golwg yn y DU, mewn cartrefi yng Nghymru a de-orllewin Lloegr. Mae ystlumod trwyn pedol mwyaf a lleiaf yn hongian yn rhydd yn y clwydfannau gerfydd eu traed.

Ble y byddant yn clwydo?

Mae unrhyw strwythur yn glwydfan bosibl i ystlumod, cyhyd â bod digon o fynediad - dim ond bwlch o 20mm sydd ei angen ar ystlumod! Dyma ganllaw o ran lle y gallant fynd i mewn ac allan o'ch tŷ.

Allwedd i'r diagram

1: teils ochr
2: estyll tywydd
3: bondoeau
4: talcen ochr
5: cyntedd
6: sêl blwm
7: teils sy'n hongian
8: teils crib
9: teils wedi torri
10: bargodion
11: ffrâm ffenestri
12: gorchuddion pren
13: estyll tywydd
14: silff ffenestr

Beth os byddaf yn dod o hyd i ystlum ar

Mae ystlumod yn anifeiliaid swil ac anymwthiol, felly os byddwch yn dod ar draws un ar y llawr yn ystod golau dydd neu'n hedfan y tu mewn i adeilad, mae'n debygol bod angen help arnynt. Gallai perchnogion clwydfannau weithiau ganfod ystlumod, yn enwedig babanod, ar y llawr yn eu gardd.

Fel arfer dim ond gweithwyr ystlumod trwyddedig ddylai drin ystlumod, ond caniateir i bobl ddidrwydded eu trin er mwyn eu hailsefydlu a'u rhyddhau. Os byddwch yn canfod ystlum ar y llawr efallai y bydd angen i chi gysylltu â'ch gofalwr ystlumod lleol i'ch helpu.

Ystlumod ar y llawr

Mae ystlum sydd ar y llawr yn ystod golau dydd yn debygol o fod mewn trafferth eisoes. Weithiau, efallai bod yr ystlum ar y llawr yn flinedig a bod angen rhywfaint o amser arnynt i wella gydag ychydig o help. Efallai ei fod wedi anafu neu mewn perygl o gael ei ddal gan ysglyfaethwyr (fel cathod), felly mae'n well mynd ag ef i'r tŷ dros dro a gofynnwch am gyngor gan y Llinell Gymorth Ystlumod (0845 1300 228) neu eich grŵp ystlumod lleol.

Mae ystlumod yn greaduriaid addfwyn ac anaml y byddant yn dangos unrhyw ymddygiad ymosodol, ond maent yn anifeiliaid gwyllt a gallant fod yn ofnus neu mewn poen. Mae'n rhaid i chi wisgo menig diogelwch a dylech drin yr ystlumod cyn lleied â phosibl.

Rhowch flwch cardbord bach dros yr ystlum a defnyddiwch ddarn o gardbord i lithro'r ystlum yn ofalus i mewn i'r blwch. Rhowch ddarn o glwtyn, fel hen liain llestri, yn rhydd mewn un cornel – bydd yr ystlum yn teimlo'n fwy diogel os oes ganddo rywbeth y gall fynd i mewn iddo a chuddio. Rhowch ychydig o dyllau aer yn y caead a chynhwysydd dŵr bas iawn (fel caead pot jam) mewn un cornel er mwyn i'r ystlum ei yfed os bydd angen. Gallwch hefyd rhoi gwlân cotwm gwlyb yn y caead er mwyn i'r ystlum ei yfed.

Unwaith y bydd yn dywyll y tu allan gallwch adael i'r ystlum fynd drwy osod y blwch ar ei ochr ar wal neu sied, o leiaf bum troedfedd o'r llawr – cofiwch dynnu'r caead! Yna gall yr ystlum gropian allan o'r blwch a hedfan i ffwrdd pan fydd yn barod. Os na fydd yr ystlum yn hedfan i ffwrdd o fewn pymtheg munud, ewch ag ef yn ôl i mewn a gofynnwch am help arbenigol gan eich gofalwr ystlumod lleol neu, os nad ydych yn gwybod am un yn eich ardal, ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod.

Mae pob ystlum Prydeinig yn fach, ac efallai y byddech yn synnu pa mor fach ydynt. Weithiau gellir canfod ystlumod ifanc ar y llawr ym mis Mehefin, mis Gorffennaf neu ddechrau mis Awst. Bob adeg arall y flwyddyn, byddant wedi tyfu'n llawn ac yn annibynnol. Nid oes gan ystlumod ifanc lawer o ffwr, os o gwbl. Prawf da yw chwythu'r ffwr yn ysgafn iawn – os bydd yn rhannu yna mae'r ystlum yn debygol o fod yn ifanc iawn. Os ydych yn siŵr mai baban ydyw, mae'n rhaid i chi gael cyngor arbenigol cyn gynted â phosibl er mwyn ceisio lleoli'r glwydfan a dychwelyd y baban at ei fam.

Ystlum y dŵr, Hugh Clark

y llawr neu yn fy nhŷ?

Ystlumod yn hedfan y tu fewn

Mae ystlum sy'n hedfan mewn ystafell yn debygol o fod wedi cymryd y troad anghywir ac yn chwilio am ffordd allan! Caewch y drws, agorwch y ffenestri mor llydan â phosibl, agorwch y llenni a symudwch unrhyw beth a allai ei rwystro rhag hedfan drwy'r ffenestr. Trowch y goleuadau i lawr a rhowch gyfle i'r ystlum ganfod ei ffordd ei hun allan. Mae ystlumod yn canfod eu ffordd drwy anfon synau ar draw uchel a gwrando am yr atsain, felly dylai'r ystlum allu canfod unrhyw agoriad sy'n arwain allan o'r ystafell.

PEIDIWCH BYTH â cheisio dal ystlum sy'n hedfan – rydych yn debygol o'i niweidio yn ddifrifol a gall hyd yn oed frathu wrth amddiffyn ei hun. Weithiau bydd ystlumod ifanc sy'n amhrofiadol wrth hedfan yn blino'n ofnadwy cyn canfod y ffordd allan. Efallai y byddant yn ceisio glanio ar y wal neu'r llenni, neu efallai y byddant yn taro â'r dodrefn neu'r llawr. Os felly, dylech ddal yr ystlum fel y disgrifiwyd yn gynt, a'i ryddhau gyda'r nos.

Ystlum lleiaf, JJ Kaczanow

Ystlumod a'r gynddaredd (rabies)

Efallai eich bod wedi clywed bod rhai ystlumod yn Ewrop yn cario firws y gynddaredd o'r enw Lysafirws Ystlumod Ewropeaidd (EBLV). Mae hyn yn anghyffredin iawn yn y DU - allan o bron i bum mil o ystlumod marw a brofwyd rhwng 1987 a 2006, dim ond pump oedd â'r firws byw. Mae'r ymchwil yn parhau i fynd rhagddi.

Caiff y gynddaredd ei drosglwyddo drwy frathiad neu grafiad gan anifail heintus, neu bod ei boer yn dod i gysylltiad â'ch pilenni gludiog (er enghraifft eich llygaid, ceg neu drwyn). Nid yw erioed wedi'i ganfod mewn baw nac wrin ystlumod yn y DU.

Nid oes angen i chi boeni am ystlumod a'r gynddaredd os nad ydych yn trin ystlumod. Os bydd angen i chi drin ystlum ar y llawr neu ystlum wedi'i anafu, gweler y dudalen gyferbyn i gael cyngor ar sut i'w godi a'i ddal. Gwisgo menig yw'r peth mwyaf diogel i chi a'r ystlum, ond os cewch eich brathu neu eich crafu gan ystlum neu os byddwch yn amau eich bod wedi cael eich brathu dylech wneud y canlynol fel rhagofal:

- Golchwch y clwyf ar unwaith gyda sebon a dŵr am o leiaf bum munud. Glanhewch y clwyf gyda sail alcohol neu ddiheintydd arall.
- Gofynnwch am gyngor gan eich meddyg am driniaeth ar ôl cael eich amlygu i'r gynddaredd ar unwaith.
- Os yn bosibl, cadwch yr ystlum mewn blwch addas a gofynnwch am help arbenigol – ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod (0845 1300 228) i gael manylion eich gweithiwr ystlumod agosaf.

Y dyfodol i ystlumod

Mae'r Bat Conservation Trust (BCT) yn awyddus i weld dyfodol lle gall pawb, ym mhob man, fwynhau gweld a chlywed ystlumod fel rhan naturiol o'u hamgylchedd.

Rydym yn dibynnu ar y cyhoedd, nid yn unig am arian i helpu i gadw ystlumod a'u cynefinoedd, ond hefyd i ddarparu'r data sy'n llywio'r gwaith cadwraeth hwnnw. Os hoffech ein helpu gyda'r gwaith pwysig hwn, gallwch wneud hynny drwy gyfrif eich ystlumod wrth iddynt ddod allan o'u clwydfannau ar ddwy noson ar wahân yn ystod yr haf. Am ragor o wybodaeth ac i gael ffurflen arolwg, ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod (0845 1300 228) a gofynnwch am y Rhaglen Monitro Ystlumod Cenedlaethol.

Gyda'ch cymorth chi, gallwn wneud yn siŵr y bydd ystlumod yn cael eu gwarchod fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu mwynhau. Dewch yn aelod o'r BCT heddiw, gan gynorthwyo i warchod y mamaliaid rhyfeddol hyn. Gallwch ymuno â'r ymddiriedolaeth ar-lein ar www.bats.org.uk, neu gallwch gysylltu â ni trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Hefyd, fe all y BCT roi manylion ichi am eich grŵp ystlumod agosaf.

Cysylltiadau defnyddiol

The Bat Conservation Trust (BCT)

15 Cloisters House, 8 Battersea Park Road, London SW8 4BG
Ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod heddiw ar **0845 1300 288** neu ewch i **www.bats.org.uk**
E-bost **enquiries@bats.org.uk**

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth am fyw gydag ystlumod a gofalu amdanynt, cymryd rhan yn y cynllun cyfrif nythfeydd, ac i gael manylion am eich grŵp ystlumod lleol neu ofalwyr ystlumod.

Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol (SNCO)

Natural England
Ffôn 0845 600 3078
Gwefan www.naturalengland.org.uk

Scottish Natural Heritage
Ffôn 0131 447 4784
Gwefan www.snh.gov.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ffôn 08451 306 229
Gwefan www.ccw.gov.uk

Environment & Heritage Service
(Gogledd Iwerddon)
Ffôn 02890 546558
Gwefan www.ehsni.gov.uk

Gyda diolch i Natural England, Scottish Natural Heritage a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am eu cymorth wrth gyhoeddi'r llyfryn hwn, ac i'r Gronfa Weithredu Amgylcheddol am eu cymorth.

Mae'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod yn elusen gofrestredig (rhif 1012361) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (cofrestrwyd yn Lloegr, rhif 2712823)